

Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Mae ein gwasanaethau eiddo preswyl yn cynnwys:

- Gwerthu a Phrynu pob math o eiddo rhydd-ddaliad ac eiddo prydles (gan gynnwys eiddo cyd-berchnogaeth)
- Trafodion prynu i osod a Chytundebau Tenantiaeth
- Cyngor i Landlordiaid a Thenantiaid Preswyl
- Ail-forgeisio
- Trosglwyddo ecwiti
- Tir wedi ei Gofrestru a Heb ei Gofrestru, gan gynnwys cofrestru eich eiddo am y tro cyntaf gyda'r Gofrestrfa Dir
- Cynlluniau Rhyddhau Ecwiti
- Gwerthu a phrynu eiddo mewn Ocsiwn.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y broses prynu a gwerthu, gofynnwch i siarad ag un o'n cyfreithwyr arbenigol ni heddiw.

utk

Y Cei
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3LN

Rhif ffôn: 01267 237441
Ffacs: 01267 238317
E-bost: mail@utk.co.uk

The Quay
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3LN

Telephone: 01267 237441
Fax: 01267 238317
E-mail: mail@utk.co.uk

Lexcel
Practice Management Standard
Law Society **Accredited**

Ungoed-Thomas & King Limited
Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif: 2755783
Awdurdodwyd a rheoleiddwyd gan yr
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr rhif: 471940

www.utk.co.uk

utk

Ungoed-Thomas & King
Cyfreithwyr • Solicitors

Prynu Cartref

Bydd eich ffeil yn cael
ei adolygu'n rheolaidd
a byddwch yn cael
adroddiadau cynnydd
rheolaidd drwy lythyr
neu e-bost neu dros
y ffôn



DEALLTWRIAETH | YMDDIRIEDAETH | GWYBODAETH

Ceisio cyngor

Mae prynu cartref bob amser yn brofiad cyffrous, ond heb gymorth cyfreithiwr, gall hefyd achosi llawer o broblemau cyfreithiol.

Mae'n debygol hefyd mai hwn fydd y penderfyniad ariannol mwyaf a wnewch yn eich bywyd.

Rydym yn hyddysg ymhob agwedd o Gyfraith Eiddo, a gallwn eich helpu i osgoi problemau posib a diogelu eich buddion drwy bob cam o'r broses – o wneud eich cynnig i gasglu'r allwedd.

Rydym yn cynnig gwasanaeth prydlon, personol ac effeithiol ar gyfer perchnogion tai o bob math, o brynwyr cyntaf, i bobl sy'n chwilio am gartref llai ar gyfer eu hymddeoliad, i fuddsoddwyr.

P'un ai yn prynu neu werthu, bydd ein staff hyfforddedig a phrofiadol yn sicrhau bod y broses yn cael ei gweithredu gyda chyn lleied â phosib o ffwdan ac effeithlonrwydd llwyr.



Yr hyn y byddwn ni ei angen wrthyh chi

I'n galluogi i weithredu ar eich rhan byddwn yn gofyn am amryw o fanylion a dogfennau, a all gynnwys y canlynol:

- Prawf o bwy ydych chi ac o'ch cyfeiriad
- Pris yr eiddo
- Peth arian ymlaen llaw i dalu am y chwiliadau sy'n rhaid eu gwneud cyn cwblhau'r pryniant
- Unrhyw ffactorau allai ddylanwadu ar eich dewis o ran union ddyddiad y cwblhad (er enghraifft, gwyliau ysgol) a,
- Sut rydych yn bwriadu talu am yr eiddo.

Byddwn angen gwybod hefyd a:

- Ydych wedi gwneud cais am Forgais
- Ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith ar yr eiddo
- Ydych yn prynu ar y cyd â rhywun arall
- Ydy'r Gwerthwr yn prynu eiddo arall
- Oes gennych eiddo i'w werthu.

Symud y broses yn ei blaen

Ni fydd yn rhaid i chi ddod ar ein hôl i gael gwybodaeth gan y bydd eich ffeil yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, a chewch adroddiadau cynnydd cyson drwy lythyr neu e-bost neu dros y ffôn.

Bydd yr Asiantau Gwerthu, Ymgynghorwyr Ariannol, Broceriaid Morgeisi ac unrhyw bobl broffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â'ch pryniant neu werthiant hefyd yn derbyn adroddiadau diweddarau fel y bo angen.

Os bydd gennych gwestiwn neu bryderon, bydd modd i chi gysylltu ar unrhyw adeg naill ai â'ch cyfreithiwr neu aelod o staff sy'n gyfarwydd â'ch ffeil.

Rydym yn aelod o banel pob prif fanc, cymdeithas adeiladu a sefydliad ariannol, ac felly yn y mwyafrif o achosion, gallwn weithredu ar eich rhan chi a'ch benthyciwr morgais, gan arbed amser ac arian i chi.



Pam defnyddio Ungoed-Thomas & King?

- Byddwn yn cysylltu â chi yn y modd ac ar yr amserau sydd orau gennych chi, p'un ai yw hynny drwy lythyr, neu e-bost, neu dros y ffôn
- Bydd cyfreithiwr cymwys yn delio â chi ac, os yw yn y swyddfa, bydd yn dychwelyd eich galwad neu'n ateb eich e-bost ar yr un diwrnod
- Mae gennym system rheoli achosion pwrpasol sy'n sicrhau ein bod yn gyrru eich pryniant / gwerthiant yn ei flaen mewn modd rhagweithiol, yn hytrach nag aros i chi, eich asiant neu ymgynghorydd ariannol ddod ar ein hôl
- Byddwn yn rhoi amcangyfrif o'n ffioedd ac unrhyw gostau eraill ar ddechrau'r broses i'ch galluogi i neilltuo arian digonol ar gyfer y costau hyn.